**Cod Ymddygiad SEAS Sailability**

Chwefror 2022

Mae'n bolisi gan SEAS Sailability bod yr holl gyfranogwyr, hyfforddwyr, swyddogion, rhieni a gwirfoddolwyr yn dangos parch a dealltwriaeth at ei gilydd, yn trin pawb yn gyfartal o fewn cyd-destun y gamp ac yn ymddwyn mewn ffordd sy'n adlewyrchu egwyddorion y sefydliad. Y nod yw bod pob cyfranogwyr yn mwynhau ei gamp ac yn gwella ei berfformiad.

**Ni fydd iaith ymosodol, rhegi, bygythion neu ymddygiad ymosodol neu ddiffyg parch at eraill a'u heiddo yn cael ei oddef, ac o bosibl bydd yn arwain at weithred ddisgyblu.**

**Cyfranogwyr**

- Gwrando ar a derbyn yr hyn a ofynnir i chi wneud i wella eich perfformiad a'ch cadw chi'n ddiogel.
- Parchu cyfranogwyr eraill, hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr
- Cadw at y rheolau ac ymddwyn yn deg
- Gwneud eich gorau bob amser
- Peidio â bwlio eraill wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neges destun neu ar-lein
- Cymryd gofal o holl offer y mae cyfranogwyr eraill, y clwb/dosbarth neu'i aelodau yn berchen arnynt

**Rhieni**

- Cefnogi cyfranogiad eich plentyn a'i helpu i fwynhau ei gamp
- Helpu eich plentyn i adnabod perfformiad da, nid canlyniadau yn unig
- Peidio byth â gorfodi eich plentyn i gymryd rhan yn y gamp
- Peidio byth â chosbi neu fychanu plentyn am golli neu am wneud camgymeriadau
- Annog eich plentyn i dderbyn cyfrifoldeb am ei ymddygiad a'i berfformiad ei hun
- Parchu a chefnogi'r hyfforddwr
- Derbyn barn y swyddogion ac adnabod perfformiad da'r holl gyfranogwyr
- Defnyddio gweithdrefnau sefydledig lle bo pryder neu anghydfod gwirioneddol
- Hysbysu'r trefnwr digwyddiad neu glwb am wybodaeth feddygol berthnasol
- Sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo dillad addas a bod ganddo fwyd a diod priodol
- Darparu manylion cyswllt a bod ar gael pan fo angen
- Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch eich plentyn a'i ymddygiad ar y safle ac o gwmpas.

…/drosodd

**Hyfforddwyr, Swyddogion a Gwirfoddolwyr**

- Ystyried lles a diogelwch cyfranogwyr cyn datblygiad perfformiad
- Annog cyfranogwyr i werthfawrogi eu perfformiad ac nid canlyniadau yn unig
- Hyrwyddo chwarae teg, a pheidio byth â goddef twyllo
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn briodol i oedran, gallu a phrofiad y rhai sy'n cymryd rhan
- Adeiladu perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at y naill a'r llall
- Gweithio mewn awyrgylch agored
- Osgoi cyswllt corfforol diangen gyda phobl ifanc
- Bod yn esiampl arbennig a dangos safonau ymddygiad ac ymddangosiad uchel pob amser
- Peidio ag yfed alcohol neu ysmygu wrth weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc
- Cyfathrebu'n glir â rhieni a chyfranogwyr
- Bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol
- Dilyn canllawiau a pholisïau RYA/BCU/BMC a SEAS Sailability
- Mae'n rhaid i ddeiliaid cymwysterau Hyfforddwr RYA gydymffurfio â Chod Ymddygiad RYA hefyd
- Mae'n rhaid i Ddeiliaid 'RYA Race Official appointments' gydymffurfio â Chod Ymddygiad 'RYA Race Officials' hefyd.
- Mae'n rhaid i ddeiliaid cymwysterau 'British Canoe Union (BCU) Instructor and Coach' gydymffurfio â Chod Ymddygiad Hyfforddwyr a Swyddogion BCU hefyd.
- Mae'n rhaid i Hyfforddwyr Cyngor Mynydda Prydain (unigolion sydd wedi cael Hyfforddiant Mynydda) gydymffurfio â Chod Ymddygiad Hyfforddwyr BMC hefyd.

Os oes gennych bryder nad yw rhywun yn dilyn y Cod Ymddygiad, dylech roi gwybod i Swyddog Lles SEAS neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y gweithgaredd.